Ysgol Y Berllan Deg

MAE DYFODOL YFORY YN DECHRAU HEDDIW

# Prosbectws

## Medi 2026

# Gwybodaeth Cyffredinol

## Ysgol Y Berllan Deg

Circle Way East, Llanedeyrn, Caerdydd CF23 9LD
Rhif Ffôn: 029 20 734152
Ebost: ysgolyberllandeg@cardiff.gov.uk

| | |
|---|---|
| Pennaeth: | Ms Mari Phillips |
| Cadeirydd Y Corff Llywodraethu: | Mr Wyn Griffiths |
| Math o Ysgol: | Ysgol Gynradd Gymraeg (3 – 11 oed) |

**Trefniant yr Ysgol**

Nifer y disgyblion (Medi 2025): 388 gan gynnwys 44 rhan amser yn y Meithrin,

| | |
|---|---|
| Ysgol Isaf: | Meithrin<br>Dosbarthiadau Derbyn<br>Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 2 |
| Ysgol Uchaf: | Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6. |

Ers Medi 2012 mae yr ysgol hon yn bwydo Ysgol Uwchradd Bro Edern.

**Trefniadau Amser:**

Derbyn, Blwyddyn 1,2,3,4,5 a 6 = : 09:05 – 03:30

** Cenir cloch yr ysgol am 9am er mwyn gallu bod yn y dosbarth erbyn 09.05 y bore.*

| | |
|---|---|
| Y Meithrin: | Sesiwn y bore: 09:05 – 11:35<br>Sesiwn y prynhawn: 12:45 – 03:15 |

Bydd staff yr ysgol yn gyfrifol am y disgyblion o 8:50 y bore tan 3:30 y prynhawn. Gofynnwn i'r rhieni am eu cydweithrediad i sicrhau fod y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore ac yn cael eu codi yn brydlon yn y prynhawn

Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ni chaniatier i rieni ddod â cherbydau ar dir yr ysgol cyn 4 o'r gloch y prynhawn neu heb ganiatâd o flaen llaw.

## Dyddiadau Tymor 2025-2026

| TYMOR | Dechrau Tymor | Dechrau $^1/_2$ Tymor | Diwedd $^1/_2$ Tymor | Diwedd Tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | Llun 1 Medi 2025 | Llun 27 Hydref 2025 | Gwener 31 Hydref 2025 | Gwener 19 Rhagfyr 2025 |
| **Gwanwyn** | Llun Ionawr 5 2026 | Llun 16 Chwefror 2026 | Gwener 20 Chwefror 2026 | Gwener 27 Mawrth 2026 |
| **Haf** | Llun 13 Ebrill 2026 | Llun 25 Mai 2026 | Gwener 29 Mai 2026 | Llun 20 Gorffennaf 2026 |

## Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (dim ysgol i'r disgyblion)

01/09/25 (Dydd Llun): Hyfforddiant i'r holl staff
02/09/25 (Dydd Mawrth): Hyfforddiant i'r holl staff
03/10/25 (Dydd Gwener): Hyfforddiant i'r holl staff
07/01/26 (Dydd Mercher) Hyfforddiant i'r holl staff

19/06/26 (Dydd Gwener): Hyfforddiant i holl staff clwstwr Bro Edern

***04/05/26 (Dydd Llun): Calan Mai***

20/07/26 (Dydd Llun) Hyfforddiant I'r holl staff

**Gweledigaeth Ysgol y Berllan Deg**
Mae'r canlynol yn adlewyrchu ein ethos a gwerthoedd ac yn darparu sylfaen, cyfeiriad ac ysbrydoliaeth ar gyfer datblygiad parhaus yr ysgol.

**Arwyddair**
Mae dyfodol yfory yn dechrau heddiw.

**Gweledigaeth** - Ein dyhead
I ddarparu amgylchedd rhagorol ar gyfer dysgu ac i bob disgybl i gyflawni ei botensial unigol yn gymdeithasol ac yn academaidd.

**Diben** – Ein pwrpas
Darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch hapus, diogel lle gall disgyblion ddarganfod, datblygu a llwyddo. Rydym yn paratoi disgyblion ar gyfer y dyfodol cyffrous o'u blaenau.

**Gwerthoedd Craidd** – Ein blociau sylfaen

| | |
|---|---|
| ***Cymraeg*** | Rydym yn dysgu ac yn rhyngweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn dathlu diwylliant a thraddodiadau Cymru gyfan. |
| ***Datblygiad*** | Dylai pob plentyn gael y cyfle i ddysgu, darganfod ac adeiladu ar eu cryfderau a'u talentau unigol. Rydym yn annog llwyddiant, hyder ac annibyniaeth fel y gallant gyrraedd eu potensial unigol. |
| ***Parch*** | Mae pob unigolyn yn haeddu cyfle cyfartal. Trwy hyrwyddo agwedd o ofal, goddefgarwch ac ymddiriedaeth a thrwy ddatblygu hunan barch a pharch at eraill y crëwn gymuned hapus a llwyddiannus. |
| ***Diogelwch*** | Mae ein ysgol yn cynnig amgylchedd hapus, diogel a chyfeillgar lle y dylai pob disgybl deimlo'n gyfforddus a'i gwerthfawrogi. |
| ***Partneriaeth*** | Er mwyn i ddisgyblion fanteisio ar yr addysg gorau posibl, mae'n bwysig i athrawon, disgyblion a rhieni weithio mewn partneriaeth. Pryd bynnag y bo modd, byddwn hefyd yn gweithio gyda'r gymuned ehangach. |

.

# Absenoldeb

Mae mynychu'r ysgol yn gyson yn bwysig i sicrhau cynnydd boddhaol yn natblygiad pob disgybl.
Os na fydd disgybl yn gallu mynychu'r ysgol am resymau dilys e.e. salwch, dylir ffonio'r ysgol cyn 9:00 y bore neu yrru ebost / neges ar Myschoolapp.

Gweler isod y canrannau am y flwyddyn academaidd 2024-2025

| % presenoldeb | % absenoldeb awdurdodedig | % absenoldeb anawdurdodedig |
|---|---|---|
| 95.8% | 3.8% | 0.4% |

# GWELEDIGAETH CWRICWLWM Y CLWSTWR

Bwriad Cwricwlwm Clwstwr Bro Edern yw diwallu anghenion ein disgyblion, sy'n dod o gefndiroedd amrywiol mewn dalgylch gymysg yn Nwyrain Caerdydd, prifddinas Cymru.

Mae'r Pedwar Diben wrth galon Cwricwlwm Clwstwr Bro Edern. Er mai dibenion hir dymor yw'r rhain, maent angen sylw dyddiol er mwyn cael eu gwireddu.

Wrth i ni arwain disgyblion sy'n falch o'u treftadaeth ddinesig yn ein prifddinas, mae Cymreictod, yr iaith Gymraeg a'i datblygiad hanesyddol yn greiddiol i'n gweledigaeth.

Mae plethu meysydd ein cwricwlwm yn bwrpasol yn sicrhau bod disgyblion Clwstwr Bro Edern yn elwa o ehangder y cwricwlwm tra'n canolbwyntio ar yr Hyn sy'n Bwysig.

Mae'r bobl a astudir yng Nghwricwlwm Clwstwr Bro Edern yn drawsdoriad amrywiol ac yn cynnwys modelau rôl sy'n ysbrydoliaeth i'r holl ystod o ddisgyblion yn y clwstwr.

Wrth gael eu magu mewn dinas aml-ddiwylliannol ble mae cyd-fyw a chyd-dynnu'n rhan allweddol o fywyd beunyddiol, mae ennyn goddefgarwch a pharch yn ein disgyblion yn hanfodol.

Mae annog uchelgais yn ein disgyblion yn golygu datblygu sgiliau a strategaethau cadarn i'w galluogi i wynebu llwyddiant a methiant. Mae dyfalbarhad a gwydnwch yn allweddol fel rhan o'r feddylfryd twf a fegir yn ein disgyblion.

Gwybodaeth gadarn sy'n gosod y sylfaen i ddisgyblion y clwstwr elwa o sgiliau a phrofiadau y gellir eu trosglwyddo i amryw o gyd-destunau heddiw, ac yn y dyfodol.

Mae rôl allweddol gan ein disgyblion i'w chwarae wrth i ni wynebu heriau ein planed yn yr unfed ganrif ar hugain, felly mae trwytho ein disgyblion yn eu cyfrifoldebau amgylcheddol yn rhan bwysig o'n cenhadaeth.

Mae gan ysgolion y clwstwr y gallu i drawsnewid bywydau ein disgyblion. Dyma ble maen nhw'n ennill yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau a fydd yn cyfoethogi gweddill eu bywydau.
Mae'r gwreiddiau ac adenydd yn logo'r Clwstwr yn crisialu hyn.

# Gwaith Cartref

Gofynnir am gefnogaeth y rhieni i sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni unrhyw waith cartref a roddir iddynt, ac ei fod yn cael ei ddychwelyd i'r ysgol ar y diwrnod cywir. Daw pob gweithgaredd gyda chyfarwyddiadau eglur er mwyn i'r rhieni allu cynorthwyo'r disgyblion.

## Dosbarth Derbyn

Ni fyddwn yn gosod gwaith cartref ffurfiol ar gyfer y disgyblion. Credwn mai'r ffordd orau i'r rhieni gynorthwyo'r disgyblion yw trwy:

- ddarllen yn gyson iddynt (does dim ots pa iaith – mwynhau llyfrau sydd bwysicaf)
- wylio rhaglenni Cymraeg yn rheolaidd ar s4C
- sicrhau eu bod yn gallu gwisgo a dadwisgo yn annibynnol, gan gynnwys dysgu iddynt sut i glymu carrai esgidiau
- sicrhau eu bod yn gallu ymdopi yn annibynnol wrth fynd i'r tŷ bach
- eu dysgu i adnabod eu dillad (trwy ddarllen eu henwau ar bob dilledyn ysgol)
- siarad â nhw. Rhowch gyfle iddynt drafod, holi a datgan barn.

## Blynyddoedd 1 a 2

**Blwyddyn 1 a 2**

Darllen – bydd y disgyblion yn dod â naill ai cardiau fflach neu lyfrau darllen adref yn wythnosol. Bydd cyfarwyddiadau eglur yn dod gyda'r gwaith darllen.

### Blwyddyn 3, 4, 5 a 6

Darllen – bydd y disgyblion yn dod â naill ai cardiau fflach neu lyfrau darllen adref yn wythnosol – Cymraeg a Saesneg bob yn ail. Bydd cyfarwyddiadau eglur yn dod gyda'r gwaith darllen.

Bydd blynyddoedd 3 a 4 a yn cael gwaith cartref bob pythefnos a bydd Blwyddyn 5 a 6 yn cael gwaith cartref yn wythnosol. Cewch gyfarwyddiadau eglur gyda phob darn o waith cartref a bydd, gan amlaf, yn deillio'n uniongyrchol o waith y dosbarth. Mi fydd y gwaith yn amrywio yn ei natur, e.e. cadw dyddiadur, ysgrifennu traethawd, gwylio rhaglen deledu arbennig, tynnu llun, dysgu cerdd, creu model, chwarae gêm fathemateg ac yn y blaen.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ers Mis Medi 2021, mae fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig wedi ei ddisodli gan system newydd a diwygiedig o'r enw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru).

Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion addysgol arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (Mwy Abl a Thalentog) sydd yn rhaid cael ei ymestyn. Ein nod yw ateb gofynion pob plentyn trwy gynllunio yn ofalus, defnyddio ystod o strategaethau gweledol, clywedol a chinesthetig sy'n galluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae'r cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cynorthwywyr dysgu yn gweithio'n agos gyda'r athrawon dosbarth ac asiantaethau allanol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Defnyddir nifer o ymyraethau amrywiol i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

# Gwisg

Er mwyn teimlo'n rhan o dîm yr ysgol disgwylir i bob disgybl wisgo gwisg swyddogol yr ysgol yn ddyddiol. Gellir prynu rhannau helaeth o'r wisg mewn nifer o siopau ac archfarchnadoedd. Siop YC Sports ar Whitchurch Road yw cyflenwyr swyddogol y wisg ysgol ac mae'r ysgol yn derbyn canran o'r hyn a werthwyd.

## Gaeaf

Siwmperi: emrallt (yn dangos bathodyn yr ysgol)
Crysau polo: nefi (plaen neu gyda bathodyn yr ysgol)
Sgert / trowsus: nefi
Esgidiau: duon (ni chaniateir gwisgo esgidiau hyfforddi)
Sanau: glas tywyll neu wyn

*Gall disgyblion Blwyddyn 6 wisgo hwdis gadael gwyrdd yr ysgol ar ddiwrnod eu gwers addysg gorfforol ac ar dripiau ysgol ond mae disgwyl iddynt wisgo siwmper neu gardigan yr ysgol ar wahân i'r amgylchiadau hyn.*

## Haf

Siwmperi: emrallt (yn dangos bathodyn yr ysgol)
Crysau polo: glas tywyll neu wyn (plaen neu gyda bathodyn yr ysgol)
Ffrog las tywyll a gwyn (streipiog neu siec)
Trowsus: byr glas tywyll
Esgidiau: duon neu sandalau call (ni chaniateir gwisgo esgidiau hyfforddi)
Sanau: glas tywyll neu wyn

## Y wisg ar gyfer Addysg Gorfforol

Disgwylir i ddisgyblion ddod i'r ysgol yn eu gwisg addysg gorfforol ar y diwrnod penodedig.

| **Gymnasteg a dawns yn y neuadd** | **Gemau ac athletau y tu allan** |
|---|---|
| Crysau T gwyn plaen neu grys t lliw timau'r ysgol | Crysau T gwyn plaen n neu grys t lliw timau'r ysgol |
| Siorts glas tywyll | Siorts glas tywyll |
| | Esgidiau ymarfer neu daps |
| | Tracwisg yn y gaeaf |

Caniateir i'r disgyblion wisgo oriawr i'r ysgol ond dim oriawr 'clyfar'.

**Ni chaniateir gwisgo tlysau.**

Os oes gan y disgybl dyllau yn ei ch/glustiau ( neu ar unrhyw fan arall o'r corff) rhaid sicrhau mai dim ond "styds" y byddant yn eu gwisgo i'r ysgol.

Rhaid tynnu'r "styds" cyn cymryd rhan yn y gwersi addysg gorfforol. Nid oes hawl gan unrhyw athrawes/athro dynnu nac ail osod "styds", felly bydd disgwyl i'r disgyblion fod yn medru gwneud hyn yn annibynnol.

Er mwyn diogelwch, taclusrwydd a glendid (ac osgoi dal llau pen!) annogir y disgyblion (boed yn ferched neu fechgyn) glymu gwallt hir yn ôl yn daclus.

# Cinio Ysgol

Darperir cinio am ddim gan yr ysgol yn ddyddiol, wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r fwydlen wedi ei pharatoi gan ddietegwyr yr awdurdod ac yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae prydau bwyd ar gyfer llysieuwyr ar gael yn ddyddiol.

Mae angen talu am y ciniawau drwy wefan Parentpay a gofynnir i rieni ddewis ciniawau eu plant am yr wythnos sydd i ddod cyn y nos Sul cynt.

# Brechdanau

Os dymunir danfon bocs bwyd gyda'r disgyblion erbyn amser cinio gofynnir yn garedig i'r rhieni gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac yn y blaen yn y bocs. **Oherwydd y nifer cynyddol o ddisgyblion gydag alergeddau ni chaniateir i ddisgyblion ddod â chnau i'r ysgol.**

# Byrbrydau

Mae croeso i'r disgyblion ddod â ffrwythau i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore. Er mwyn cynnal ein polisi o fwyta'n iach ni chaniateir i'r disgyblion ddod â siocled /losin /creision ac yn y blaen i'r ysgol. **Oherwydd y nifer cynyddol o ddisgyblion gydag alergeddau ni chaniateir i ddisgyblion ddod â chnau i'r ysgol.**

Bydd disgyblion 3 i 7 oed yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Eto, gan ddilyn ein polisi cadw'n iach, rydym yn sicrhau bod dŵr i'w yfed ar gael ar gyfer y disgyblion trwy'r dydd. Gofynnir i bob plentyn ddod â photel ddŵr i'r ysgol gydag enw'r plentyn wedi ei ysgrifennu yn glir arni. Bydd y poteli yn cael eu gyrru gartref i'w golchi yn ddyddiol a disgwylir nhw yn ôl yn yr ysgol bob bore.

# Moddion a Damweiniau

Gall staff yr ysgol roi moddion i ddisgyblion gyda chaniatâd. Os oes gan ddisgybl salwch sydd yn gofyn am iddo gymryd meddyginiaeth yn rheolaidd (e.e. epilepsi, asthma ayb) gofynnwn i chi gysylltu â'r pennaeth er mwyn gwneud trefniadau arbennig.

Mae aelodau o staff wedi derbyn hyfforddiant Ajuda Ltd mewn cymorth cyntaf, ac yn dal tystysgrifau cyfredol.

Mewn argyfwng dwys bydd yr ysgol yn cysylltu'n syth gyda'r rhieni ac yn galw am gymorth proffesiynol.

# Diogelu Plant

Y Pennaeth yw Swyddog Diogelu Plant yr ysgol. Yn absenoldeb y Pennaeth y Dirprwy, Mrs Angharad Walpole, fydd yn cymryd y cyfrifoldeb. Mae staff yr ysgol yn derbyn hyfforddiant blynyddol mewn materion diogelu plant.
*Gweler Polisi Diogelu Plant (ar gael o swyddfa'r ysgol ac ar wefan yr ysgol)*

# Gweithio Mewn Partneriaeth

Credwn mai dim ond trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni y bydd pob disgybl yn cyrraedd ei wir botensial. Mae cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r rhieni yn holl bwysig er lles y disgyblion.

Os bydd gan y rhieni bryderon am eu plant gofynnir iddynt gysylltu â'r Pennaeth yn syth. Dim ond trwy drafodaeth, a chydweithio y gellir datrys problemau.

Yn yr un modd, os ydy'r ysgol yn poeni am unrhyw ddisgybl cysylltir yn syth gyda'r rhieni.

Er mwyn sicrhau bod y rhieni yn cael digon o amser i drafod unrhyw broblem gyda'r athrawon unigol gofynnir iddynt ffonio'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Gellir wedyn drefnu amser sydd yn gyfleus i bawb er mwyn cynnal trafodaeth effeithiol.

## Enghreifftiau o Weithio Mewn Partneriaeth

| Rôl Yr Ysgol | Rôl Y Rhieni |
|---|---|
| • Danfon cylchlythyrau yn rheolaidd er mwyn trosglwyddo gwybodaeth | • Edrych ym mag eich plentyn bob nos i weld os oes gwaith cartref neu lythyr |
| • Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr | • Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am hapusrwydd neu |

| | |
|---|---|
| ysgol | ddiogelwch eich plentyn yn yr ysgol |
| • Danfon gwaith cartref yn rheolaidd a sicrhau ei fod yn cael ei farcio | • Cynnig help i'ch plentyn a sicrhau bod y gwaith cartref yn cael ei orffen |
| • Sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd boddhaol | • Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am gynnydd eich plentyn |
| • Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei annog i wneud ffrindiau | • Gwahodd ffrindiau eich plentyn adref i de neu i chwarae |
| • Cysylltu â'r rhieni os oes unrhyw aelod o'r staff yn poeni am ddatblygiad cyffredinol disgybl | • Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am ddatblygiad cyffredinol eich plentyn |
| • Gwrando ar, ac ymateb i bryderon unrhyw ddisgybl | • Gwrando ar, ac ymateb i bryderon eich plentyn |

# Cytundeb Cartref / Ysgol

Pan fydd y disgyblion yn ymuno â'r ysgol gofynnir i'r rhieni arwyddo cytundeb cartref/ysgol.

Gweler Atodiad A am gopi o'r cytundeb.

# Adroddiadau ar Gynnydd y Disgyblion

Cynhelir dwy noson rieni yn flynyddol. Yn ystod y nosweithiau cynigir cyfle i edrych ar a thrafod gwaith y disgyblion gyda'r athrawon. Ar ddiwedd tymor yr Haf cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i rieni pob disgybl.

Mae staff yr ysgol ar gael ar unrhyw adeg, trwy drefniant, i drafod gwaith a chynnydd pob disgybl.

# Disgyblaeth

Credwn mewn datblygu hunan ddisgyblaeth yn ein disgyblion. Hyfforddir y disgyblion o'r cychwyn cyntaf i ddangos parch at eraill, boed yn gyfoedion neu yn oedolion. Trwy esiampl yr athrawon byddant yn dysgu bod yn gwrtais ac ystyried teimladau eraill.

Rydym yn dathlu ymddygiad da trwy gynnal gwasanaethau arbennig a rhoi sticeri clod.

Weithiau bydd ambell ddisgybl yn ei gweld hi'n anodd i ddilyn rheolau'r ysgol. Bydd angen cymryd camau disgyblu i'w helpu i gydymffurfio.

Os bydd yr ysgol yn poeni am ymddygiad unrhyw ddisgybl cysylltir â'r rhieni er mwyn cydweithio i ddatrys y broblem.

# Cwynion Am Yr Ysgol

Os bydd y rhieni yn teimlo'n anhapus gydag unrhyw agwedd o fywyd ysgol eu plentyn gofynnir iddynt gysylltu â'r pennaeth yn y lle cyntaf. Gan amlaf bydd modd datrys y broblem trwy drafodaeth. Os na fydd y rhieni wedi eu bodloni yn dilyn proses y polisi cwynion gellir cysylltu gyda chadeirydd y Llywodraethwyr trwy ebostio LlywodraethwyrL5@hwbcymru.net

Os na fydd y broblem wedi ei datrys gellir cysylltu â Swyddfa'r Sir:
Prif Swyddog Ysgolion, Neuadd Y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

*Gweler Polisi Gweithdrefnau Cwyno yr Ysgol (ar gael o swyddfa'r ysgol ac ar wefan yr ysgol)*

# Cyfleoedd Cyfartal

Credwn bod yr hawl gan bob unigolyn beth bynnag fo'i hil, ei gefndir, ei grefydd neu ei anabledd dderbyn cyfle cyfartal yn yr ysgol hon.

Ymfalchïwn ein bod yn ysgol sydd yn croesawu disgyblion, staff a rhieni o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywedd, anabledd, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

Ymdrechwn i greu cymdeithas sydd yn dathlu amrywiaeth yn hytrach na rhagfarnu.

## Anabledd

Mae adeilad yr ysgol wedi ei addasu ar gyfer derbyn disgyblion a staff gydag anableddau corfforol, fel a ganlyn:

- mynediad i'r prif fynedfa yn hawdd ei gyrraedd
- dau fan parcio i'r anabl yn y maes parcio
- y drysau yn hawdd i'w hagor (dolennau isel)
- lifft i'r llawr cyntaf
- toiledau i'r anabl ar y ddau lawr
- coridorau llydan
- drysau y dosbarthiadau yn llydan
- mynediad i'r neuadd yn hawdd
- mynediad i'r iard chwarae ar un lefel
- mynediad i'r cae chwarae yn hawdd

Mynediad I'r Cwricwlwm
Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys, ac yn cynnig cyfle i bob disgybl lwyddo. Cynllunir gweithgareddau'r ysgol yn ofalus gan ystyried y pwyntiau canlynol:

- gallu academaidd pob disgybl
- gallu corfforol pob disgybl
- diddordeb a dawn pob disgybl
- cred pob disgybl
- cefndir cymdeithasol pob disgybl
- cefndir ethnig pob disgybl

# Mynediad i'r Ysgol

Cyngor Sir Caerdydd sydd yn penderfynu pa ddisgyblion gaiff eu derbyn i'r ysgol.

Fel arfer bydd y rhieni yn cysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol yn y lle cyntaf. Trefnir cyfarfod gyda'r Pennaeth a chyfle i gael taith o gwmpas yr ysgol. Bydd yr ysgol yn trosglwyddo'r manylion am unrhyw ddarpar ddisgybl at Neuadd Y Sir. O hynny ymlaen swyddogion y Sir fydd yn cysylltu gyda'r rhieni ac yn penderfynu cynnig lle yn yr ysgol ai peidio. Bydd plant y Derbyn a'r Meithrin yn dechrau fesul carfan fechan o 10 ar y tro am y dyddiau cyntaf.

*Gweler gopi o lyfryn "Mynediad I Ysgolion – Cyngor Caerdydd" am fanylion pellach.*

# Cyfraniad Ariannol

Er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm ac ymestyn profiadau'r disgyblion bydd yr ysgol yn trefnu ymweliadau a gwahodd ymwelwyr i'r ysgol yn achlysurol.

Bydd yr ysgol yn gofyn i'r rhieni am gyfraniad tuag at gostau'r ymweliad neu'r ymwelydd. Ni fydd yr ysgol yn gwneud elw wrth ofyn am dâl gan y rhieni. Os bydd rhiant yn cael anhawster cyfrannu at y costau ni waherddir y disgybl rhag cymryd rhan yn y weithgaredd. Nid yw hyn yn berthnasol i gyrsiau preswyl a gwersi offerynnol. Bydd unrhyw drafodaeth am arian yn gyfrinachol rhwng y Pennaeth a'r rhiant.

Defnyddir arian o gronfa'r ysgol er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bawb gymryd rhan yn y gweithgareddau a drefnir. Serch hynny, os na fydd modd gan yr ysgol i gyfrannu yn ddigonol mae'n bosib y bydd rhaid canslo'r weithgaredd.

*Gweler Polisi Codi Tâl am fwy o fanylion, ar gael o swyddfa'r ysgol ar ar wefan yr ysgol.*

# Gwersi Offerynnol

Cynigir gwersi offerynnol i ddisgyblion Blwyddyn 3,4,5 a 6. Cynigir gwersi telyn, ffidil, piano, ffliwt, clarinet, sacsoffôn a gitâr.

Bydd gofyn talu am y gwersi ychwanegol yma er mwyn talu am athrawon peripatetig. Gwasanaeth cerdd yr awdurdod sydd yn gyfrifol am y trefniadau a'r taliadau.

Addysgir y disgyblion mewn grwpiau bychan yn ystod y diwrnod ysgol gyda phob gwers tua hanner awr o hyd.

# Gweithgareddau Allgyrsiol

Trefnir gweithgareddau allgyrsiol amrywiol ar gyfer y disgyblion Blwyddyn 3,4,5 a 6 yn wythnosol unai yn ystod oriau ysgol neu am 3.30pm. Fe all cynnwys y rhain amrywio o dymor i dymor ac maent yn cynnwys clybiau pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, codio, garddio a côr i enwi ychydig ohonynt.

# Cynllun Gofal

Yn ystod rhai gwyliau cynhelir clwb gofal yn yr ysgol wedi ei drefnu gan Menter Caerdydd. Am fanylion pellach gweler gwefan Menter Caerdydd.
Mae Cynllun Gofal ar ôl ysgol hefyd ar gael yn yr adeilad o ddydd Llun hyd Ddydd Gwener o 3.30pm tan 5.30pm. Am fwy o fanylion cysylltwch â Trystan Francis ar 07967568412.

## Cynllun Brecwast Am Ddim Wedi Ei Ariannu Gan Lywodraeth Cymru

Mae cynllun brecwast ar gael i'r disgyblion yn rhad ac am ddim yn neuadd yr ysgol am 8am bob bore. Mae cyfle i rieni wneud cais i'w plentyn am le yn y clwb brecwast drwy ffurflen arlein ac mae'r ysgol yn gwneud ei gorau gynnig lle i bob disgybl y gwneir cais ar eu cyfer am o leiaf un diwrnod o'r wythnos.

## Bws Ysgol

Mae'r gwasanaeth bws 822 drwy Benylan i'r ysgol wedi ei ymestyn erbyn hyn ac yn cael ei ariannu yn rhannol gan Gyngor Caerdydd. Mae modd archebu lle ar y bws a chael mwy o fanylion drwy gysylltu gyda chwmni New Adventure Travel ar 02920442040. Mae defnyddio bws yn gyfleus ac yn ffordd dda o osgoi traffig ar y ffyrdd neu broblem parcio y tu allan i'r ysgol. Mae hefyd yn ffordd dda i helpu gwella'r amgylchedd yn lleol trwy leihau llygredd o geir sydd yn teithio i ac o'r ysgol.

# Addysgu a Dysgu

Cymraeg yw cyfrwng pob gwers, heblaw am y gwersi Saesneg ym mlynyddoedd 3,4,5 a 6.

Defnyddir amryw o dechnegau addysgu megis addysgu dosbarth cyfan yn uniongyrchol, addysgu grwpiau bychain o fewn y dosbarth ac addysgu unigolion. Rhoddir cyfle i'r disgyblion ymchwilio, gwrando, trafod, holi a hunan arfarnu.

# Iechyd a Diogelwch

Dilynir polisi iechyd a diogelwch yr ysgol a chanllawiau'r Sir er mwyn sicrhau, o fewn pob rheswm, iechyd a diogelwch pawb sydd ar safle'r ysgol.

Sicrheir:

- bod y disgyblion yn cael eu goruchwylio trwy gydol y dydd
- bod drysau allanol yr ysgol dan glo yn ystod y dydd
- bod ymwelwyr yn arwyddo llyfr ac yn gwisgo bathodyn ymwelydd tra ar safle'r ysgol
- bod ymwelwyr yn cofnodi yr amser byddant yn ymadael â'r ysgol
- bod dril tân yn cael ei gynnal bob tymor
- bod staff yr ysgol yn derbyn hyfforddiant dril tân bob tymor
- mai dim ond staff, ymwelwyr a cherbydau nwyddau sydd yn gyrru ar safle'r ysgol rhwng 8:00 y bore a 4:00 y prynhawn
- mai dim ond ar iard gefn yr ysgol mae'r disgyblion yn chwarae
- bod offer yr ysgol a'r adeilad mewn cyflwr da

Mae staff yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau diogelwch eiddo personol y disgyblion.Gofynnir i'r rhieni gefnogi yr ysgol i sicrhau diogelwch eiddo personol trwy:

- beidio â danfon teganau i'r ysgol gyda'r disgyblion
- sicrhau bod pob eitem o ddillad wedi ei labelu yn eglur gydag enw'r disgybl arno
- ofalu nad yw eich plentyn yn dod â ffôn symudol i'r ysgol

Ni chaniateir i'r disgyblion ddod â pheli nag offer chwarae i'r ysgol i'w defnyddio yn ystod yr amser egwyl. Mae offer chwarae amrywiol ar gael yn yr ysgol i'w defnyddio yn ystod yr amseroedd chwarae.

*Gweler y polisi Iechyd A Diogelwch am fanylion pellach.*

# Atodiad A

Enghraifft o gytundeb ysgol/cartref.
Gofynnir i'r rhieni arwyddo'r cytundeb pan fydd y plant yn cael eu derbyn i'r ysgol.

## Cytundeb yr Ysgol a'r Cartref

Enw'r Disgybl: ..........................................................................................................

Yn yr ysgol hon credwn mai dim ond trwy gydweithio y gallwn roi'r cyfle gorau i'r disgyblion gyrraedd eu llawn potensial yn academaidd ac yn gymdeithasol.

**Ymrwymiad cytundebol yr ysgol**

Gwnawn ein gorau i sicrhau fod pob disgybl yn:
* derbyn pob cefnogaeth er mwyn llwyddo
* cyflawni hyd at eithaf ei allu
* cael pob gofal
* ddiogel ac yn dysgu mewn amgylchedd gyffyrddus a chyfeillgar

Arwyddwyd: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . Pennaeth

**Ymrwymiad cytundebol y rhieni**

Sicrhawn bod ein plentyn yn:

* cwblhau unrhyw waith cartref
* dod â'r wisg / offer addas i'r ysgol
* cyrraedd yr ysgol yn brydlon
* parchu rheolau Ysgol Y Berllan Deg
* deall pwysigrwydd siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn cefnogi ethos Gymreig yr ysgol

Arwyddwyd: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . Rhiant